




CIWB

# Dathlu



# Beth ydych chi'n dathlu?

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

## Help

### Geirfa

rhaglen	programme
Noson Tân Gwyllt	Bonfire Night
fel arfer	usually
cyn	before
cwrdd	to meet
cŵn poeth	hot dogs
felly	so, therefore
lliwgar	colourful
cawl	soup
swêds	swedes / turnips
maip	swedes / turnips
cerddoriaeth	music
twmpath dawns	folk dancing evening
pib, pibau	pipe, pipes
sbeislyd	spicy
diwedd	end



**Cyflwynydd (Dyn):**

Helo a chroeso i raglen arall o Dathlu ...

Heddiw, dw i yn Llanelli a dw i eisiau gwybod beth mae pobl Llanelli yn dathlu ym mis Tachwedd a Rhagfyr.

Esgusodwch fi. Ga i siarad â chi?

**Rhian:**

Cewch.

**Cyflwynydd:**

Beth ydy'ch enw chi?

**Rhian:**

Rhian Williams ydw i.

**Cyflwynydd:**

Ble ydych chi'n byw, Rhian?

**Rhian:**

Dw i'n byw yn Llanelli.

**Cyflwynydd:**

Ydych chi'n dathlu ym mis Tachwedd?

**Rhian:**

Ydw. Dw i'n dathlu Noson Tân Gwyllt ym mis Tachwedd fel arfer.

**Cyflwynydd:**

Noson Tân Gwyllt ... Ydych chi'n dathlu ar Dachwedd pump?

**Rhian:**

Nac ydw, dw i'n dathlu ar y nos Sadwrn cyn Tachwedd pump.

**Cyflwynydd:**

Beth ydych chi'n wneud?

**Rhian:**

Mae fy ffrindiau a fi'n cwrdd yn y dref yn y prynhawn ... yna, rydyn ni'n mynd i dŷ ffrind i bwyta cŵn poeth ...

**Cyflwynydd:**

Blasus - dw i wrth fy modd yn bwyta cŵn poeth - dw i'n hoffi'r sosej ... a'r winwns ... a'r sôs coch mewn rhôl wen flasus ... mmm!

**Rhian:**

O, da iawn ... ac yna rydyn ni'n mynd i'r parc i weld y tân gwylt.

**Cyflwynydd:**

Oes llawer o bobl yn y parc fel arfer?

**Rhian:**

Oes, mae llawer iawn o bobl yn y parc fel arfer achos mae'r tân gwylt yn lliwgar iawn – ac mae ffair yno.

**Cyflwynydd:**

Ffair! Gwych.

**Rhian:**

Mae'n hwyl.

**Cyflwynydd:**

Felly, rydych chi'n mwynhau dathlu Noson Tân Gwyllt.

**Rhian:**

Ydw, dw i wrth fy modd.

**Cyflwynydd:**

Diolch yn fawr.

**Cyflwynydd:**

Esgusodwch fi.

**Andrew:**

Fi?

**Cyflwynydd:**

Ie – chi... Ga i siarad â chi?

**Andrew:**

Cewch.

**Cyflwynydd:**

Beth ydy'ch enw chi?

**Andrew:**

Andrew.

**Cyflwynydd:**

Ble ydych chi'n byw, Andrew?

**Andrew:**

Dw i'n byw yng Nghaerdydd ond dw i'n dod o'r Alban.

**Cyflwynydd:**

O'r Alban?

**Andrew:**

O'r Alban – o Glasgow.

**Cyflwynydd:**

O, diddorol. Ydych chi'n dathlu ym mis Tachwedd?

**Andrew:**

Ydw – wrth gwrs.

**Cyflwynydd:**

Wel ... **beth** ydych chi'n dathlu?

**Andrew:**

Dw i'n dathlu Gŵyl Andreas – *St Andrew's Day*.

**Cyflwynydd:**

O! ... mmm ... pryd mae Gŵyl Andreas?

**Andrew:**

Tachwedd tri deg.

**Cyflwynydd:**

Tachwedd tri deg? Beth ydych chi'n wneud ar *Wyl Andreas*?

**Andrew:**

Wel, dw i'n gwisgo cilt ...

**Cyflwynydd:**

Waw!

**Andrew:**

... dw i'n bwyta bwyd o'r Alban ...

**Cyflwynydd:**

Pa fath o fwyd?

**Andrew:**

Haggis ... *cranachan* ... *shortbread* ... *Selkirk bannock* ... cawl *cock-a-leekie* ...

**Cyflwynydd:**

Cawl *cock-a-leekie*?

**Andrew:**

Ie – cawl blasus iawn ... a dw i'n bwyta *neeps a tatties*

**Cyflwynydd:**

*Neeps a tatties?* Beth ydy *neeps a tatties*?

**Andrew:**

*Neeps* – swêds neu ... maip ... *Tatties* – tatws

**Cyflwynydd:**

O, dw i'n gweld – maip neu swêds a tatws – *neeps a tatties* ... Beth arall ydych chi'n wneud?

**Andrew:**

Dw i'n mynd i *ceilidh*.

**Cyflwynydd:**

*Ceilidh*?

**Andrew:**

Dawnsio o'r Alban – fel twmpath dawns yng Nghymru. Mae'n hwyl.

**Cyflwynydd:**

O, ga i drio?

**Andrew:**

Wrth gwrs ...

**Andrew:**

Ie ... wel ...

**Cyflwynydd:**

Felly, rydych chi'n mwynhau dathlu Gŵyl Andreas?

**Andrew:**

Ydw, yn fawr iawn – mae'n hwyl.

Rhaid i fi fynd, mae'n ddrwg gen i.

**Cyflwynydd:**

Esgusodwch fi ... ydych chi'n dathlu ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr ...?

**Cyflwynydd:**

Hei – dw i'n gallu clywed cerddoriaeth pib – pibau'r Alban.

A dw i'n gallu aroigli bwyd sbeislyd - hagis efallai.

Wel, dyna ddiwedd y rhaglen – dw i'n mynd i chwilio am gilt – i ddathlu Dydd Sant Andreas gydag Andrew. Hwyl fawr i chi.

# Hwyl dros y Nadolig

20 Tachwedd, 2015

Dim newyddion heddiw - ysgol ... gwaith cartref ... gwylio ffilm gyda'r teulu.

Siarad â Matt, Gav a Lois am yfory - dw i'n edrych ymlaen.

Wedi blino - nos da.



21 Hydref, 2015

Roedd heddiw'n wych!!!!

Es i i sglefrio gyda Gav, Matt a Lois. Mae Gŵyl y Gaeaf - y *Winter Wonderland* - yng Nghaerdydd eto. Cyffrous! Roedd y sglefrio'n hwyl achos roedd Gav yn cwympo'n aml!

Wedyn, bwytais i sosejis o'r Almaen (blasus iawn!), a crêpes o Ffrainc gyda past siocled (bendigedig!!). Bwy todd Matt 8 crêpe!!!!



Aethon ni i'r farchnad Nadolig. Roedd crefftaw, bwyd a dillad yn y farchnad ond roedd y bechgyn yn ddiflas iawn yn siopa a dwedodd Matt, "Kate, dw i eisiau mynd i'r ffair." Felly, aethon ni i'r ffair. Roedd y reids yn anhygoel!

Mae Gŵyl y Gaeaf yng Nghaerdydd tan fis Ionawr felly rydyn ni'n mynd eto. Dw i'n edrych ymlaen.

Nos da!

Help

### Geirfa

sglefrio	to skate
cwympo = syrthio	to fall
doniol	funny
blasus	delicious
anhygoel	incredible, awesome
tan	until

felly

so, therefore

edrych ymlaen

to look forward

## ❶ Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

- sausages
- crafts
- chocolate spread

# Pen-blwydd hapus

<b>Sam</b> 	Mae pen-blwydd Ben, fy ffrind i, ym mis Rhagfyr a dw i eisiau trefnu syrpreis. Help!
<b>Olga</b> 	Yn Rwsia, rydyn ni'n bwyta pei pen-blwydd – dim cacen pen-blwydd. Ydy Ben yn hoffi peis?
<b>Sam</b> 	Dw i ddim yn siŵr.
<b>Mia</b> 	Yn Awstralia, rydyn ni'n bwyta <i>fairy bread</i> ar ein pen-blwydd – bara menyn gyda channoedd a miloedd ar y bara.
<b>Sam</b> 	<i>Fairy bread!?!?!</i> Na, dydy Ben ddim yn hoffi <i>fairy bread</i> !
<b>Dei</b> 	Yng Nghanada, rydyn ni'n rhoi menyn ar drwyn person ar ei ben-blwydd. Syrpreis!
<b>Sam</b>	Gwych! Dw i'n hoffi'r syniad yna – rhoi menyn ar drwyn Ben!

	<b>Alberto</b> Yn Nenmarc, rydyn ni'n hongian baner tu allan i dŷ person ar ei ben-blwydd.
	<b>Lin</b> Yn China, rydyn ni'n bwyta nwadls i ginio ar ein pen-blwydd.
	<b>Samira</b> Yn India, mae plentyn yn gwisgo dillad lliwgar i'r ysgol ar ei ben-blwydd ac mae'n rhoi siocledi i ffrindiau.
	<b>Sam</b> Dw i'n hoffi'r syniad yna – rhoi siocledi i ffrindiau – achos dw i'n hoffi siocledi.
	<b>Daniela</b> Yn yr Eidal rydyn ni'n tynnu clustiau person ar ei ben-blwydd.
	<b>Leon</b> Yn Jamaica, rydyn ni'n taflu blawd dros berson ar ei ben-blwydd.
	<b>Sam</b> Gwych – rhoi menyn ar y trwyn ... tynnu clustiau ... taflu blawd ...! Diolch yn fawr. Mae Ben yn mynd i gael syrpreis mawr ar ei ben-blwydd!
	<b>Raoul</b> Dydy plant yn yr Almaen ddim yn cael gwaith cartref ar eu pen-blwydd.



**Sam**

Gwych!



**Kim**

Yn Vietnam, mae pawb yn dathlu pen-blwydd ar Ddydd Tet – diwrnod cyntaf y flwyddyn. Beth am aros tan fis Ionawr i ddathlu?



**Sam**

Na, dw i ddim yn meddwl. Rydyn ni eisiau dathlu ym mis Rhagfyr.



## ➊ Pwysig! Pwysig! Pwysig!

fy = my

fy ffrind (i)

ein = our

ein pen-blwydd (ni)

ei = his

ei ben-blwydd (e/o)

eu = their

eu pen-blwydd (nhw)

Help

Geirfa

trefnu      to organize

cannoedd      hundreds and  
a miloedd      thousands

baner	flag
tynnu	to pull
clustiau	ears
taflu	to throw
blawd	flour
diwrnod	day
cyntaf	first
blwyddyn	year

# Dathlu ar draws y byd (1)

Mae llawer o bobl yn dathlu ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr.



Mae pobl yn dathlu ar draws y byd ac mae rhai dathliadau'n wahanol iawn!

## 3 Tachwedd

### **Dydd Brechdanau** (America)

Beth am fwyta brechdan flasus ar Dachwedd 3? Mae llawer o bobl yn America'n mwynhau brechdanau blasus heddiw!

## 7-8 Tachwedd

### **Punkin Chunkin** (America)

Ydych chi'n gallu saethu pwmpen yn bell? Wel, yn Dover, America, mae pencampwriaeth Punkin Chunkin y byd ym mis Tachwedd. Mae pobl yn defnyddio catapyltiau, canonau a gynnau mawr i saethu pwmpenni yn bell. Bobl bach!

## 29-30 Tachwedd

### **Bwydo'r mwnciod** (Lop Buri, Gwlad Thai)

Mae pobl yn dathlu yn Lop Buri, Gwlad Thai, ar ddiwedd Tachwedd. Maen nhw'n rhoi bwyd i'r mwnciod ac mae tua 10,000 o bobl yn dod i wyllo. Pam? Achos mae pobl yn meddwl bod rhoi bwyd i'r mwnciod yn lwcus – ac maen nhw'n mwynhau gweld y mwnciod yn bwyta ac yn dawnsio ar y byrddau.

## 3 Rhagfyr

### **Dydd gwneud anrhegion** (Mewn sawl gwlad)

Mae'r Nadolig yn dod. Ydych chi wedi prynu'r cardiau a'r anrhegion? Na? Wel beth am wneud cardiau ac anrhegion heddiw achos heddiw ydy Dydd gwneud anrhegion?



1



2



3



4

Help

Geirfa

gallu

can, to be able to

saethu	to shoot
pwmpen	pumpkin
yn bell	far
pencampwriaeth	championship
y byd	the world
gwylion	to watch
anrhegion	presents

## ❶ Beth ydy'r geiriau Saesneg?

- catapyltiau
- canonau
- gynnau
- cardiau

## ❷ Cwestiwn

Beth ydy **byrddau**?

Meddyliwch am 'dawnsio ar y byrddau'.

Ydy'r gair **byrddau** yn edrych fel gair arall?

Beth ydy'r gair?

*Punkin' Chunkin' gan Chris Connelly; fe'i defnyddir o dan CC BY*

# Beth sy'n digwydd?

Edrychwch ar y sleidiau yma.



← 'Nôl

Nesaf →

Edrychwch ar y sleidiau eto.

Beth sy'n digwydd yn y sleidiau?

Siaradwch am hyn mewn grŵp ac ysgrifennwch eich syniadau ar ddarn o bapur, e.e.



Beth ydy'r dathliad yn y sleidiau?

Ydych chi eisiau cliw? Mae'r dathliad ym mis Tachwedd.

Ewch i'r adran **Atebion** i weld yr atebion.

Help

## ❶ Beth ydy'r geiriau Cymraeg?

- slides
- clue

Wareham Christmas Parade gan Lets Go Out Bournemouth and Poole; fe'u defnyddir o dan CC BY

# Beic newydd

Mae'r Nadolig yn dod ac un ffordd o ddathlu ydy rhoi anrhegion.

Darllenwch y ddeialog yma mewn parau.

**Marc:**

*(Mae Marc yn eistedd o flaen y cyfrifiadur. Mae e ar y we. Mae Dad yn dod i mewn.)*

Dad, mae'r Nadolig yn dod ...

**Dad:**

Ydy, Marc ...?

**Marc:**

Ga i feic newydd i'r Nadolig os gwelwch yn dda?

**Dad:**

Beic newydd?!?!?. Pam wyt ti eisiau beic newydd?

**Marc:**

Achos mae'r hen un yn hen ffasiwn. Edrycha – dw i'n hoffi'r beic yma.

*(Mae Marc yn pwyntio at feic ar y we.)*

**Dad:**

Bobl bach! Pum can punt!!!

**Marc:**

Ond edrycha, Dad, mae e'n hyfryd. Mae'r lliwiau – coch a du – yn berffaith. Dw i wrth fy modd gyda'r beic yma ac mae "Dual Pivot Calliper Brakes" ... ac un deg chwech gêr ... ac mae ...

**Dad:**

Pam wyt ti eisiau un deg chwech gêr? Mawredd mawr

**Marc:**

Ond, Dad ...

**Dad:**

Na, Marc. Mae pum can punt yn llawer o arian. Mae e'n llawer iawn o arian.

**Marc:**

Ond mae un deg pump y cant i ffwrdd ... mae e ar y sêl.

**Dad:**

Mae e'n llawer o arian, Marc. Os wyt ti eisiau'r beic, rhaid i ti dalu amdano fe.

**Marc:**

Ond ...

**Dad:**

Rwyt ti'n cael pedwar deg punt o arian poced bob mis. Sut wyt ti'n gwario dy arian poced?

**Marc:**

Wel dw i'n prynu dillad ...

**Dad:**

Gormod o ddillad!

**Marc:**

Dad! ... Dw i'n mynd ar y bws i'r dref gyda fy ffrindiau bob prynhawn Sadwrn.

**Dad:**

A beth ydych chi'n wneud yn y dref ar brynhawn Sadwrn?

**Marc:**

Rydyn ni'n prynu brechdanau i ginio ... rydyn ni'n siopa ...

**Dad:**

Siopa "am ddillad" – gormod o ddillad!

**Marc:**

Rydyn ni'n mynd i'r cinema ... neu i fowlio deg ...

**Dad:**

Ac yna, rydych chi'n mynd allan am bizza.

**Marc:**

Ydyn. O, Dad plîs, ga i'r beic yma i'r Nadolig.

**Dad:**

Iawn ... Cei ...

**Marc:**

O, gwych ...

**Dad:**

Ond rhaid i ti feddwl sut rwyt ti'n mynd i dalu am y beic!

**Marc:**

O!!!

Help

Geirfa

hen- ffasiwn	old- fashioned
perffaith	perfect
y cant	per cent
i ffwrdd	off

talu	to pay
amdano fe	for it
arian poced	pocket money
bob mis	every month
gwario	to spend
prynu	to buy
gormod	too many

# Rasio

Rydych chi'n mynd i wyllo ffilm. Dyma ychydig o help i chi, os ydych chi eisiau help.

## Help

### Geirfa

ymarfer	to train
Nos	New
Galan	Year's Eve
pa mor hir?	how long?
miloedd	thousands
o bob rhan o Brydain	from all parts of Britain
rhywun	someone
bedd	grave
wedi marw	dead, died
ar ôl	after
fel hyn?	like this?
arhosa funud	wait a minute
os	if



**Sofia:**

Helo, Carwyn. Beth wyt ti'n wneud?

**CCC:**

Dw i'n ymarfer.

**Sofia:**

Ymarfer?

**CCC:**

Ymarfer.

**Sofia:**

**Pam** wyt ti'n ymarfer?

**CCC:**

Dw i'n ymarfer ar gyfer y ras.

**Sofia:**

Pa ras?

CCC:

Ras Nos Galan.

Sofia:

Pa ras Nos Galan?

CCC:

Ras Guto Nyth Brân.

Sofia:

O! Ble mae'r ras?

CCC:

Yn Aberpennar.

Sofia:

Aberpennar?

CCC:

Mountain Ash, tref ger Aberdâr, yn Ne Cymru.

Sofia:

O, dw i'n gweld ... O, dw i'n cofio nawr – ras Guto Nyth Brân.

**Pa mor hir** ydy'r ras?

CCC:

5 cilomedr.

Sofia:

Wyt ti'n gallu rhedeg 5 cilomedr?

CCC:

Esgusodwch fi!!!! Ydw i'n gallu rhedeg 5 cilomedr – wrth gwrs.

**Sofia:**

O, wel, pob lwc.

Oes llawer o bobl yn rasio yn y Ras Nos Galan?

**CCC:**

Oes – mae miloedd o bobl yn dod i rasio – o bob rhan o Brydain.

**CCC:**

Ar ddechrau'r ras, mae pawb yn mynd i'r eglwys.

**Sofia:**

I'r eglwys?!?!? Bobl bach!

**CCC:**

Ac yna, mae rhywun yn rhoi blodau ar fedd Guto Nyth Brân.

**Sofia:**

Rhoi blodau ar fedd Guto Nyth Brân?!?!?

**CCC:**

Ie, **bedd** Guto Nyth Brân.

**Sofia:**

Ydy Guto Nyth Brân wedi marw 'te?

**CCC:**

Ydy, wrth gwrs.

**Sofia:**

Sut?

**CCC:**

Wel, roedd Guto Nyth Brân yn rhedeg ... Roedd e'n rhedeg yn gyflym iawn. Roedd e'n wych. Unwaith, roedd e'n rhedeg mewn ras ... ac enillodd e. Roedd cariad Guto'n hapus iawn. Rhoiodd hi slap iddo fe ...

**Sofia:**

Slap???

**CCC:**

Ie, slap i ddweud, "Da iawn ti!".

**Sofia:**

Fel hyn? "Da iawn!"

**CCC:**

Awtsh!!!!

Ac yna bu farw Guto. Mmm ... Arhosa funud ...

**CCC:**

Sofia, wyt ti'n dod i'r ras?

**Sofia:**

Ydw, wrth gwrs.

Dw i'n mynd i roi slap i ti i ddweud, "Da iawn, Carwyn – Ardderchog!"

**CCC:**

Iawn ... wel ... dyna ni ... os wyt ti'n dod i'r ras, dw i **ddim** yn mynd i rasio ... Hwyl fawr!

**Sofia:**

Ond ...?

# Dathlu ar draws y byd (2)

Mae llawer o bobl yn dathlu ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr.



Mae pobl yn dathlu ar draws y byd ac mae rhai dathliadau'n wahanol iawn!

## 6 Tachwedd

### **Dydd Nachos** (America)

Ydych chi'n hoffi *nachos* – darnau o *tortilla* gyda sbeis neu gaws – blasus iawn!

Sut i ddathlu? Bwytwch *nachos*, triwch ryseitiau newydd a mwynhewch!

## 12-22 Tachwedd

### **Gŵyl y môr-ladron** (Ynysoedd y Cayman)

Rhedwch! Mae'r môr-ladron yn dod ar long fawr! Rhedwch yn gyflym ... ond wedyn, mwynhewch y gerddoriaeth, y dawnsio, y gemau, y bwyd a'r ddiod, y carnifal, y chwaraeon a'r tân gwylt. Hwyl! Hwyl! Hwyl!

## 19-25 Tachwedd

### **Ffair Pushkar** (India)

Pum deg mil (50,000) o gamelod a dau gan mil (200,000) o bobl yn mwynhau – dyna Ffair Pushkar. Yma, mae pobl yn prynu camelod ac yn mwynhau'r ffair, y chwaraeon a'r cystadlaethau, e.e. cystadleuaeth y mwstash gorau, cystadleuaeth gwneud twrban. Hefyd – reidiau camelod a chamelod yn rasio ac yn dawnsio.

## 7 Rhagfyr

## Dydd Ysgrifennu Llythyrau (mewn sawl gwlad)

Beth am anfon llythyr at ffrind neu un o'r teulu (neu rywun dydych chi ddim wedi cyfarfod) yn lle anfon neges destun neu e-bost? Heddiw ydy Dydd Ysgrifennu Llythyrau, felly dechreuwch ...

### Help

#### Geirfa

darn, darnau	piece, pieces
rysáit, ryseitiau	recipe, recipes
môr-ladron	pirates
ynysoedd	islands
llong	ship
prynu	to buy
cystadleuaeth	competition
cystadlaethau	competitions
llythyr, llythyrau	letter, letters
sawl	several
rhywun	someone
wedi cyfarfod	have met
yn lle	instead of
anfon	to send
neges destun	text (message)

**➊ Beth ydy'r geiriau Cymraeg?**


- spice
- moustache
- turban




1



2



3



4


# Dau'n dathlu

Mae llawer o bobl yn dathlu ym mis Tachwedd a Mis Rhagfyr. Rydych chi'n mynd i wrando ar ddua berson ifanc yn siarad am sut maen nhw'n dathlu.

Dyma help i chi os ydych chi eisiau help.

## Help

Geirfa	
prynu	to buy
glanhau	to clean
fferins	sweets
losin	sweets
rhoi	to place, to put, to give
anrheg, anrhegion	present, presents
golau	light
pwysig	important
bob nos	every night
goleuo	to light
cannwyll, canhwyllau	candle, candles
olew	oil
ynddo fe	in it



Diwali

-1:20



Hanukkah

-0:55

# Parti ... parti ... parti ...

● ● ●

## parti diwedd tymor

Anfonwyd: Dydd Iau, 15 Hydref 2015 09:31

Oddi wrth: [lyn@bl8ysgab.ac](mailto:lyn@bl8ysgab.ac)

At: [Blwyddyn 8](#)

Helo, bawb.

Mae llawer o bobl yn dathlu ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr ac rydyn ni eisiau dathlu hefyd.

Mae grŵp o Flwyddyn 8 yn trefnu parti diwedd tymor ond rydyn ni eisiau trefnu parti gwahanol. Ydych chi'n gallu helpu?

Rydyn ni eisiau syniadau am:

- pryd bydd y parti
- ble bydd y parti
- bwyd parti
- dillad parti
- addurniadau parti
- beth i wneud yn y parti.

Rydyn ni wedi bod yn chwilio ar y we ac rydyn ni wedi gweld rhai syniadau "gwahanol", e.e.

- **Bwyd gwahanol:** Yn Japan, mae llawer o bobl yn bwyta KFC dros y Nadolig; yn Ne Affrica, mae pobl yn bwyta lindys wedi ffrio; yn Sweden, maen nhw'n bwyta pwdin reis. Unrhyw syniadau?
- **Dillad gwahanol:** Mae llawer o bobl yn gwisgo i fyny fel Siôn Corn, wrth gwrs ond yn Awstria, mae rhai pobl yn gwisgo i fyny fel Krampus – bwystfil ofnadwy – ym mis Rhagfyr. Unrhyw syniadau?
- **Addurniadau gwahanol:** Yn Wcráin, mae pobl yn rhoi gwe corryn / pry cop dros y goeden Nadolig ac maen nhw'n rhoi addurniadau gwe o gwmpas y tŷ. Unrhyw syniadau?
- **Beth i wneud yn y parti:** Yn Sweden, mae llawer o bobl yn gwylio cartwnau Donald Duck dros y Nadolig ac yn Estonia mae pobl yn mynd i'r sawna.

Beth ydych chi'n feddwl? Oes syniadau gyda chi? Rydyn ni eisiau parti cyffrous, "gwahanol".

Ysgrifennwch aton ni os gwelwch yn dda.

Diolch yn fawr.

Lyn



Help

### Geirfa

diwedd	end
tymor	term
addurniadau	decorations
lindys	caterpillar
bwystfil	monster
gwe	web
corryn	spider
pry cop	spider
aton ni	to us

# Dim dathlu heno!

## i Y Fari Lwyd



Yng Nghymru, dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, mae rhai pobl yn mynd o dŷ i dŷ yn cario'r Fari Lwyd – pen ceffyl (cardbord fel arfer!) gyda blanced wen a rhubanau ar y pen. Mae dyn yn cuddio o dan y flanced.

Maen nhw'n stopio tu allan i dŷ. Maen nhw'n canu pennill. Mae'r bobl yn y tŷ'n canu pennill. Mae criw y Fari Lwyd yn canu pennill arall. Mae'r bobl yn y tŷ'n canu pennill arall - ac eto - ac eto - ac yna mae criw'r Fari Lwyd yn mynd i mewn i'r tŷ ac mae parti mawr.

Yna, mae criw'r Fari Lwyd yn mynd i dŷ arall i ganu eto ac i gael parti arall.

Mae'n hwyl!

Help

Geirfa

blanced wen	white blanket
cuddio	to hide
pennill	verse
criw	crew

## Dim dathlu heno!

Rwyt ti'n edrych ...

mor dawel  
 mor ddi-liw  
 mor drist  
 mor llonydd  
 yn pwys o ar wal y garej  
 tu ôl i'r bocsys a'r beiciau  
 a gwe pry cop rhwng dy glustiau.

Dim ffrindiau cyffrous!

Dim bwyd blasus!

Dim rhubanau lliwgar, llawen

ar dy gefn gwyn.

Dim hwyl!

Ond paid â phoeni ...


Cyn bo hir, byddi di eto

mor swnllyd  
 mor lliwgar  
 mor hapus  
 mor heini  
 yn cerdded o dŷ o dŷ  
 o flaen dy ffrindiau llawen  
 yn DATHLU!

## Help

Geirfa	
mor	so
di-liw	colourless
pwysô	to lean
gwe pry cop	cobweb
clustiau	ears
llawen	jolly, merry
cefn	back
poeni	to worry
cyn bo hir	before long
o flaen	in front of

# Gwisgo coed



**❶ Beth ydy'r stori tu ôl i'r Dydd Gwisgo Coed:**



Amser maith yn ôl, yn 1730, yn yr Himalayas, roedd y Maharaja o Jodhpur eisiau adeiladu palas. "Ewch i bentref Khejarli," dwedodd e wrth ei ddynion "achos mae coed da iawn yno. Torrwyd y coed i lawr."

Aeth y dynion i bentref Khejarli i dorri'r coed i lawr.

Roedd un ferch yn y pentref, Amrita Devi, yn drist iawn. "Mae hyn yn ofnadwy," dwedodd hi. "Rhaid i ni wneud rhywbeth. Rhaid i ni ofalu am y coed yma."

Aeth hi at un o'r coed a rhoi ei breichiau hi o gwmpas coeden. Cofleidiodd hi'r goeden achos roedd hi eisiau stopio'r dynion. Stopiodd y dynion ddim. Torron nhw'r goeden i lawr a lladdon nhw Amrita.

Roedd pobl y pentref yn drist. "Dewch!" dwedodd un o'r bobl. "Rhaid i ni wneud rhywbeth. Rhaid i ni ofalu am y coed yma. Rhaid i ni stopio'r dynion."

Aethon nhw at y coed a rhoi eu breichiau o gwmpas y coed. Cofleidion nhw'r coed achos roedden nhw eisiau stopio'r dynion. Ond stopiodd y dynion ddim. Torron nhw'r coed i lawr – a lladdon nhw'r bobl. Lladdon nhw 363 o bobl.

Pan glywodd y maharajah, roedd e'n drist. Daeth e i'r pentref. "Stopiwch torri'r coed," dwedodd e wrth y dynion. "Peidiwch torri'r coed yma byth eto."

Heddiw, does neb yn cael torri'r coed i lawr yn yr ardal yma.

## Heddiw ...

Mae pobl eisiau torri'r coed i lawr mewn rhannau gwahanol o'r byd. Ond mae rhai pobl yn protestio ac yn cofleidio'r coed – fel Amrita Devi a phobl y pentref.

Does dim rhaid i chi gofleidio'r coed ar 5-6 Rhagfyr ond mae'n bwysig meddwl am y coed yn yr ardal!



## Help

### Geirfa

pwysig	important
addurno	to decorate
tynnu	to take, remove
aer	air
coedwigoedd	forests
amser maith yn ôl	a long time ago
adeiladu	to build
o gwmpas	around
cofleidio	to hug
lladd	to kill
pentref	village
byth eto	(n)ever again

neb	no-one
cael	to be allowed to
ardal	area
rhannau	parts
byd	world
ardal	area

## **i Beth ydy'r geiriau Cymraeg?**

- ribbons
- shapes
- lights
- colours
- stories
- carbon dioxide
- palace